

**CYDRADDOLDEB
MENYWOD NAWR:
Y SEFYLLFA
YNG NGHYMURU
HEDDIW AR
=DDATGANOLI**





RHAGAIR

Sefydlwyd RhCM Cymru yn 2010 i gynrychioli a chefnogi sefydliadau niferus ac unigolion sy'n gweithio i ddatblygu hawliau menywod a hyrwyddo cydraddoldeb ledled Cymru. Ers hynny, rydym wedi ennill presenoldeb ar y llwyfan leol a byd-eang, gan ddarparu llais unedig ar faterion sy'n bwysig i fenywod a merched yng Nghymru.

Rydym ni'n dwy, fel pob menyw, wedi wynebu adfyd. Rydym wedi dod o hyd i'n llais personol ac wedi meithrin yr hyder i arwain y ffordd ar gyfer dyfodol holl fenywod Cymru y nein rôl fel Cyd-gadeiryddion. Ein gweledigaeth i fenywod a merched yng Nghymru yw cael llais ar faterion sy'n bwysig iddynt.

Er mwyn gwireddu hyn, rydym wedi comisiynu cyfres o friffiadau ymchwil sy'n tynnu sylw at faterion lle mae menywod yn teimlo yr effeithir arnynt fwyaf gan anghydraddoldeb. Maer ymchwil hwn yn rhoi cyfle am ddeialog uniongyrchol rhwng menywod a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru. Yn y bôn, mae'n tynnu sylw at faterion anghydraddoldeb sydd dal yn bodoli yng Nghymru heddiw, gan sicrhau y cant eu trafod er mwyn galluogi newid.

Rydym yn rhagweld y bydd y cyfres yn parhau fel sail i waith RhCM i fynd i'r afael ag anghenion mwyaf blaenllaw menywod yng Nghymru.

Sarah Rees a Monika Borkowska

(Cyd-Gadeiryddion, RhCM Cymru)





CYFLWYNIAD

Mae Cymru wedi bod yn dathlu ei chyflawniadau i gyflwyno cydraddoldeb rhyw ym mywyd cyhoeddus a gwleidyddol ers amser maith, gyda menywod yn chwarae rôl allweddol wrth gynnwys cydraddoldeb yn Neddf Llywodraeth Cymru.

Mae'n hysbys i bawb mai ni oedd y llywodraeth ddatganoledig gyntaf i gyflawni cydbwysedd rhyw 50/50, ond rydym wedi syrthio y tu ôl ers 2003. Yn y DU, mae llawer yn ei chael hi'n anodd credu mai 13 o AS Cymreig benywaidd a gafwyd ers 1536.

Mae gan Gymru ymrwymiad parhaus i greu cydbwysedd rhyw mewn pŵer. Bydd Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus (WIPL) y Fonesig Rosemary Butler yn dangos canlyniadau'n fuan, ond mae gennym ddiffyg amrywiaeth mewn llywodraeth leol – mae cynghorwyr yn parhau i fod yn ddynion gwyn blinedig, ac mae menywod yn cyfri am ychydig dros 30% o benodiadau cyhoeddus.

Mae newid ar y gweill yng ngoleuni refferendwm yr Alban ac ail glymblaid Llywodraeth o bosib yn dilyn etholiadau Seneddol 2015. A yw menywod yng Nghymru am gynyddu pwerau a gallu i wneud mwy o newidiadau, er enghraifft penodi Comisiynydd Cymru dros Fenywod? A yw'r elfennau allweddol ar gyfer newid yn cynyddu'n araf oherwydd eu bod yn cyd-fynd â San Steffan? Gall y briffiad hwn ddechrau trafodaeth â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ymgorffori cydraddoldeb yn y byd gwleidyddol, gwrywaidd prif ffrwd.

Hanes

Am ganrifoedd, roedd y diwylliant gwleidyddol yng Nghymru'n un a oedd yn gwthio menywod i'r cyrion ac yn eu heithrio. Arddull cyn-ddatganoli Cymru oedd "dynion yn teyrnasu, natur gyfyngedig, canolgyrchol a gwrth-ddemocrataidd," ynghyd â lefelau isel o ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb yn hllith swyddogion y llywodraeth yn ogystal â'r gwleidyddion.¹ Cafwyd erioed ond tair ar ddeg o AS benywaidd o Gymru ers y 'Ddeddf Uniad' rhwng Cymru a Lloegr ym 1536.² Yn ystod y 1990au, roedd ffeminyddion ac eraill yn lobio am ffyrdd i hyrwyddo cydraddoldeb i'w gynnwys mewn deddfwriaeth ddatganoli.³ Roeddent yn llwyddiannus, ac roedd Deddf Llywodraeth Cymru (1998) a Deddf Llywodraeth Cymru (2006) wedi gosod dyletswydd unigryw i hyrwyddo cydraddoldeb ar Weinidogion Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn ddiweddarach, roedd Deddf Cydraffoldeb 2010 wedi galluogi Llywodraeth Cymru i orfodi dyletswyddau penodol o ran cydraddoldeb i gyrff cyhoeddus Cymru.

Roedd dyletswyddau cydraddoldeb newydd y Cynulliad yn gysylltiedig â gweithgarwch gwyllt yn y blynyddoedd cynnar, I nodi ychydig o enghreifftiau, rhoddwyd trefniadau sefydliadol newydd ar waith megis mabwysiadu oriau a oedd yn addas i'r teulu at fusnes y Cynulliad a sefydlu Pwyllgor Sefydlog ar Gyfle Cyfartal yn y Cynulliad. Sefydlwyd cyrff hyd braich i gynrychioli diddordebau grwpiau amrywiol o bol yr effeithiwyd arnynt gan anghydraddoldeb. Gorfodwyd cwotâu ar gynrychiolaeth menywod mewn grwpiau a sefydlwyd i weinyddu arian y DU, ac roedd y mwyafrif o ddatganiadau polisi Llywodraeth Cymru'n cynnwys (weithiau'n uchelgeisiol), ymrwymadau i gyfle a chanlyniad cyfartal. Ond a wnaeth y lobio, y ddeddfwriaeth, y newidiadau sefydliadol a'r ymrwymadau polisi hyn wahaniaeth i fenywod yng Nghymru?



YR HYN A WNAETH DATGANOLI I FENYWOD

Cyflawnodd datganoli lawer o ran cynyddu cynrychiolaeth menywod yn y Cynulliad a newid rhai polisiau.

Torrodd etholiadau Cynulliad 1999 ffiniau gwleidyddol Cymru, wrth i fenywod ennill 24 o 60 o seddi. Nid oedd eu llwyddiant yn ddamweiniol, ond yn ganlyniad i fesurau penodol, dadleuol i gynyddu cynrychiolaeth megis rhestrau byr menywod Llafur, seddi clwm a rhestrau caeedig a Phlaid Cymru'n blaenoriaethu menywod ar restrau rhanbarthol. ⁴ Yn etholiad Cynulliad 2003, cyflawnodd Cymru cyntaf drwy ddychwelyd cynrychiolaeth 50:50.

Erbyn 2011, roedd cynrychiolaeth menywod wedi disgyn yn ôl i lefelau 1999 wrth i bleidiau ddiweddu eu mesurau cydraddoldeb a dibynnu ar 'weddillion' i gynnal o leiaf peth cydraddoldeb rhyw. Fodd bynnag, mae menywod dal i gael eu cynrychioli'n well yn y Cynulliad nag mewn sefydliadau datganoledig eraill neu Senedd y DU. ⁶

	AC Benywaidd	AC Gwrywaidd	Canran y Menywod
1999-2003	24	36	40
2003-2005	30	30	50
2005-2007	31	29	52
2007-2011	28	32	47
2011 -	25	35	42

Ffynhonnell: Brooks, S. a Ap Gareth, O. (2013) Adroddiad Grym Cymru: Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus [Y Gymdeithas Trawsnewid Etholiadol].



Gallai etholiad y Cynulliad 2016 weld cynrychiolaeth menywod yn dirywio hyd yn oed ymhellach. Eisoes, mae nifer o aelodau benywaidd blaenllaw y Cynulliad wedi nodi y byddant yn gadael. Mewn theori, gallant gael eu disodli gan chew menyw arall, ond mae profiad blaenorol yn awgrymu ei fod yn fwy tebygol y bydd eu lleoedd yn cael eu llenwi gan ddynion – disodlodd dynion fenywod a oedd yn gadael ym mhump o bob saith o seddi Llafur.⁷

Mae cynrychiolaeth AC benywaidd yn y Cabinet wedi bod yn fwy cymysg. Ar ôl cyrraedd y brig yn 2000-2003, sef cynrychiolaeth 50:50, mae nifer yr aelodau Cabinet benywaidd wedi disgyn ac ers 2011, mae'n dair menyw'n unig o'i gymharu â chew dyn.

Mae'r ffocws ar gydraddoldeb a chynrychiolaeth uwch menywod wedi newid polisi a thrafodaethau. Dengys ymchwil ar ddau dymor cyntaf y Cynulliad fod AC benywaidd yn gyfrifol am sôn am 'ofal plant' 61.8% o'r adegau y trafodwyd y pwnc, am sôn am drais yn y cartref 74.2% o'r adegau y trafodwyd y pwnc a chyflog cyfartal 65.4% o'r adegau y trafodwyd y pwnc.⁸

Canlyniad sawl un o'r trafodaethau hyn oedd newid mewn polisi. Ac enwi ond ychydig, datblygwyd polisiau newydd lle nad oedd rhai'n bodoli eisoes megis ar gam-drin yn y cartref a phriodas orfodol; rhoddwyd cymorth ymarferol ar waith e.e, arian ar gael i rieni sy'n fyfyrwyr i helpu gyda gofal plant; a chydweithio gyda chyrrff eraill megis gyda TUC Cymru i 'Gau'r Bwlch mewn Cyflog'.⁹ Fwyaf diweddar, mae dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru a deddfwriaeth ar drais yn y cartref wedi dangos bod yr ymrwymiad i gydraddoldeb rhyw yn parhau.





YR HYN NA WNAETH DATGANOLI I FENYWOD

Ond ni wnaeth – ac ni allai – ddatganoli gyflawni popeth.

Yn hanfodol, nid oedd wedi ehangu cynyddu cynrychiolaeth menywod mewn bywyd cyhoeddus y tu allan i'r Cynulliad, lle cafwyd ychydig iawn o newid yn y rhan fwyaf o ardaloedd dros y deng mlynedd diwethaf. ¹⁰

Yn y llywodraeth leol, mae menywod yn parhau i'w chael hi'n anodd mynd i'r byd gwleidyddol. Dim ond oddeutu chwarter (27%) o gynghorwyr yr awdurdod lleol sy'n fenywod ¹¹ – nid oes gan unrhyw awdurdod lleol fwy na phedair o bob denh menyw sy'n gynghorwyr ac mewn dau awdurdod lleol (Merthyr Tudful a Sir Fôn) mae llai nag un ym mhob with aelod yn fenyw. ¹² Dim ond 9% o arweinwyr yr awdurdod lleol sy'n fenywod, cyfran is nag yn 2004. Roedd menywod hefyd yn meddu ar lai nag un ym mhob pump o swyddi prif weithredwr mewn awdurdodau lleol. ¹³


Nid yw menywod wedi'u cynrychioli'n dda ar fyrddau nag mewn uwch-swyddi cyrff cyhoeddus Cymru – swydd a ddisgrifiwyd gan yr Athro Laura McAllister fel 'anobeithiol'. ¹⁴ Yn ogystal, mae menywod wedi'u cynrychioli'n wael ar gomisiynau cyfansoddiadol, gyda dau'n unig o bob wyth o leoedd ar y Comisiwn Silk a dim ar Gomisiwn Holtham. ¹⁵

Mae effaith datganoli ar fywydau menywod wedi bod yn gyfyngedig hefyd. Mae menywod yn parhau i brofi gwahaniaethu ac anghydraddoldebau sylweddol mewncanlyniadau yng Nghymru, fel y meant mewn ardaloedd eraill yn y DU. Mae menywod yn llai tebygol o gael swydd â thâl na dynion, yn enwedig pan fo'u plant yn ifanc, a phan y bônt yn gweithio, mae hynny mewn swyddi 'benywaidd' megis gofalu, glanhau a gwaith clerigol. ¹⁶ Mae'r bwlch cyflog rhyw yn parhau gyda menywod yn ennill oddeutu 80% o incwm dynion. ¹⁷ Mae menywod yn gyfrifol am swmp y gwaith gofalu yn y cartref. ¹⁸ Mae menywod dal mewn perygl mwy o ddioddef cam-drin yn y cartref a thrais rhywiol na dynion. ¹⁹

Women in Public Life in Wales, 2014

Source: Equality and Human Rights Commission (2014) Who Runs Wales? 2014.

■ Women
■ Men





PAM?

Ceir sawl rheswm pam mae datganoli wedi cyflwyno llai i fenywod na'r gobraith.

Fwyaf amlwg, nid yw llawer o'r elfennau allweddol cydraddoldeb ryw wedi'u datganoli. Roedd y system dreth a budd-daliadau, cyfreithiau priodas ac ysgaru, cyfiawnder troseddol, deddfwriaeth gyflogaeth ac agweddau allweddol ar iechyd megid deddfwriaeth ar erthylu'n parhau yn San Steffan. Er y gallai'r, ac y gwnaeth y Cynulliad ddatblygu ei safbwynt ei hun ar bopeth o drais yn y cartref i gydbwysedd gwaith-bywyd, cyfyngwyd yn sylweddol ar ei allu i gyflawni newid sylfaenol.

Hyd yn oed lle datganolwyd pwerau, effeithiodd nature y cytundeb datganoli ar gyflawniadau'r Cynulliad. Mae Paul Chaney wedi dadlau ²⁰ bod ansicrwydd ynghylch pwerau'r Cynulliad wedi cymryd amser, yn debyg i "San Steffan yn llusgo", yn enwedig yn ystod y blynyddoedd cynnar. Bwysicach fyth, oherwydd y cafwyd ychydig o gosbau am beidio â chydymffurfio â pholisïau a deddfwriaeth y Cynulliad ac felly cafwyd problem fawr gyda rhoi'r elfennau hyn ar waith. ²¹ Gwnaed y broblem yn waeth gan bolisïau a oedd yn dibynnu ar ddatganiadau o fwriad yn hytrach na thargedau cadarn a gyflawnwyd gan gamau gweithredu effeithiol. Dylai pwerau creu cyfreithiau diweddar y Cynulliad, y ffocws ar 'gyflwyno' a'r cysyniad o gytundeb datganoli 'taclusach' fynd i'r afael â rhai o'r problemau hyn.

Gyda philer datganoledig yn gyfyngedig i 19 o feysydd penodol, y mae'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru'n eu cyflwyno lle y bo'n bosib, mae cyrff cyhoeddus yn cefnogi'u cyflawniadau. Er bod y Cynulliad wedi cynnyddu cynrychiolaeth menywod, nid oedd yr un peth yn wir am y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus eraill. Fel rydym wedi gweld, mae'r rhan fwyaf yn parhau i fod yn wrywaidd gan mwyaf gyda materion cydraddoldeb yn cael eu rhoi nail ochr, er gwaethaf dyletswyddau cydraddoldeb.

Nid yw newid rhaniadau ac anghydraddoldeb rhyw yn hawdd. Ni fydd y grymoedd cymdeithasol, economaidd a diwylliannol dwfn sy'n peri ystrydebau, gwahaniaethu a cham-drin yn diflannu'n gyflym nac yn hawdd, nac yn unig ar ofyniad polisi Llywodraeth Cymru.

Ac felly?

Heb os, mae datganoli wedi gwella bywydau menywod yng Nghymru. Mae'r ffaith nad yw wedi cael ei wneud i'r graddau yr oedd pobl yn gobeithio amdaynt yn dweud llai am ddatganoli ei hun, a mwy am anferthedd y dasg a phwerau cyfyngedig y Cynulliad a Llywodraeth Cymru. Bydd yn cymryd sawl blwyddyn arall o ymdrech benderfynol i gael y newidiadau hyn y mae menywod am eu cael, gyda mwy o gynrychiolaeth i fenywod, ymrwymiad diffuant i gydraddoldeb rhyw a chytundeb datganoli cryfach yn allweddol i'r newidiadau.



BETH NESAF?



Mae cynrychiolaeth menywod mewn llywodraeth leol yn parhau i fod yn isle, er gwaethaf ymdrech barhaus – oes rhaid i ni gymryd camau gweithredu cadarnhaol (megis cwotâu, crynhoi a rhestrau byr menywod yn unig)?



Ydyn ni'n cymryd camau i sicrhau bod gwaith Gweinidogion benywaidd yn parhau ar ôl iddynt adael?



Oes rhaid i ni ddatganoli pwerau ymhellach i ymgorffori cydraddoldeb rhyw'n brif ffrwd? Os felly, pa bwerau?

¹ Chaney, P. (2003) Menywod a newyd cyfansoddiadol yng Nghymru [Papur a gyflwynwyd i'r gweithdy Newid Cyfansoddiadau, Sefydliadau Adeiladu ac (Ail-) Ddiffinio Perthnasoedd Rhyw, Consortiwm Ewrop ar gyfer Ymchwil Gwleidyddol, Cyd-sesiynau Gweithdai, 28 Mawrth – 2 Ebrill, 2003].

² Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2014) Pwy sy'n Rheoli Cymru? 2014.

³ Chaney, P. (2002) Menywod a'r Agenda Cydraddoldeb Ôl-ddatganoli yng Nghymru [Papur a gyflwynwyd i'r Fforwm Ymchwil Rhyw, Uned Menywod a Chydraddoldeb, Swyddfa'r Cabinet 11 Chwefror 2002].

⁴ McMillan, J. & Fox, R. (2010) A yw datganoli wedi gweithio i fenywod? [Cymdeithas Hansard].

⁵ McMillan, J. & Fox, R. (2010) A yw datganoli wedi gweithio i fenywod? [Cymdeithas Hansard].

⁶ Brooks, S. & Ap Gareth, O. (2013) Adroddiad Grym Cymru: Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus [Y Gymdeithas Trawsnewid Etholiadol].

⁷ McAllister, A. (2014) Cyflwyniad i 44ain Cynhadledd Ranbarthol Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir "Cydraddoldeb Mynediad i Ddemocratiaeth", Caerdydd 27-29 May 2014, Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad.

⁸ Chaney, P., MacKay, F. and McAllister, L., (2007) Menywod, gwleidyddiaeth a newid cyfansoddiadol: blynyddoedd cyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gwasg Prifysgol Cymru Caerdydd: (dyfynwyd yn McMillan, J. & Fox, R. (2010) A yw datganoli wedi gweithio i fenywod? [Cymdeithas Hansard]).

⁹ Chaney, P. (2009) Cyfle Cyfartal a Hawliau Dynol: Y Degawd Cyntaf o Ddatganoli yng Nghymru [Adroddiad a gomisiynwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol].

¹⁰ Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2014) Pwy sy'n Rheoli Cymru? 2014.

¹¹ Brooks, S. & Ap Gareth, O. (2013) Adroddiad Pŵr Cymru: Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus [Y Gymdeithas Trawsnewid Etholiadol]

¹² ibid.

¹³ ibid.

¹⁴ Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2014) Pwy sy'n Rheoli Cymru? 2014.

¹⁵ Brooks, S. & Ap Gareth, O. (2013) Adroddiad Pŵr Cymru: Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus [Y Gymdeithas Trawsnewid Etholiadol].

¹⁶ Davies, R, Parken, A. & Pocher, E. (2014) Patrymau Gwaith yng Nghymru: Rhyw, Meddiannaeth a Thâl [Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi].

¹⁷ ibid.

¹⁸ Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (2015) Menywod a Gofal Di-dâl yng Nghymru.

¹⁹ Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (2015) Menywod, trais economaidd a thlodi yng Nghymru.

²⁰ Chaney, P. (2009) Cyfle Cyfartal a Hawliau Dynol: Degawd Cyntaf Datganoli yng Nghymru [Adroddiad a gomisiynwyd gan y Comisiwn Hawliau Dynol].

²¹ ibid.